**Infrastructure 40, Dŵr Cymru Welsh Water**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith** | **Climate Change, Environment, and Infrastructure Committee**

Bil Seilwaith (Cymru) | Infrastructure (Wales) Bill

Ymateb gan Dŵr Cymru | Evidence from Welsh Water

## Egwyddorion Cyffredinol

**Beth yw eich barn ar egwyddorion cyffredinol y Bil, ac a oes angen deddfwriaeth i wireddu'r bwriad polisi datganedig?**

Dŵr Cymru Cyfyngedig (Dŵr Cymru) yw'r ymgymerydd dŵr a charthffosaeth statudol sy'n cyflenwi dros dair miliwn o bobl yng Nghymru a rhai rhannau cyfagos o Loegr. Rydyn ni'n darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol ar gyfer ein cwsmeriaid trwy gyflenwi eu dŵr yfed, a chludo'u dŵr gwastraff i ffwrdd a'i drin wedyn. Trwy hyn, mae ein seilwaith yn gwneud cyfraniad pwysig at iechyd y cyhoedd ac at amddiffyn amgylchedd Cymru. Mae ein gwasanaethau'n hanfodol i ddatblygiad economaidd cynaliadwy yng Nghymru hefyd.

Mae ein hargaeau, ein cronfeydd dŵr a'n gweithfeydd trin dŵr gwastraff yn asedau allweddol o fewn rhwydwaith ein seilwaith. Mae hi'n hanfodol ein bod ni'n gallu parhau i ddarparu'r gwasanaeth cyhoeddus hanfodol yma mewn ffordd amserol. Lle bo'n briodol, rydyn ni'n cefnogi ystyried mecanweithiau i gyflymu'r broses o wneud penderfyniadau am gydsynio i seilwaith graddfa fawr. Felly o ran egwyddor, rydyn ni'n cefnogi'r broses gydsynio gadarn, unedig, clir a symlach ar gyfer adeiladu ac addasu ein hargaeau, ein cronfeydd dŵr a'n gweithfeydd trin dŵr gwastraff a bennir yn y Bil. Fodd bynnag, mae gennym nifer o sylwadau am y trothwyon o ran beth a gaiff ei ystyried i fod yn Brosiect Seilwaith o Bwys (SIP).

Symleiddio'r Broses

Mae dull gweithredu'r Bil sy'n seiliedig ar 'siop un stop' o ran ynni a seilwaith yn galonogol iawn. Mae'r Bil yn gymysgedd o wahanol statudau, polisïau a gweithdrefnau wedi eu cyfuno mewn un weithdrefn ymgeisio bosibl. Yn fyr, mae hi'n ymddangos bod gwahanol statudau wedi cael eu cynnwys, gydag adrannau o ddeddfwriaeth, polisïau a gweithdrefnau Cynllunio, y ddeddfwriaeth Prynu Gorfodol, Deddf Tiroedd Comin 2006, a'r weithdrefn Datblygiadau o Arwyddocâd

Cenedlaethol. Mae’r ateb sengl yma’n dal i fod yn beth cadarnhaol ar yr amod y bydd yr holl geisiadau’n aros yn un wrth eu cyflwyno, ac na fydd y peth yn arwain at weithdrefn feichus a allai olygu datblygiadau yng Nghymru’n cael eu gohirio neu eu hatal.

Fodd bynnag, am fod gweithdrefnau cynllunio’r Bil yn rhai cymhleth o ran eu natur, mae angen rhagor o amser i DCWW rhoi ystyriaeth lwyr i oblygiadau ‘r broses ar gyfer cyflawni argaeau, cronfeydd dŵr a gweithfeydd trin dŵr gwastraff.

Ymgynghorai Statudol

Fel ymgynghorai statudol yn y broses gynllunio, rydyn ni’n disgwyl bod yn ymgynghorai ym mhob cais seilwaith newydd er mwyn rhoi cyfle i ni gyflwyno sylwadau ar eu heffaith ar ein seilwaith, a hynny er mwyn amddiffyn ein cwsmeriaid a’r amgylchedd. Gallai proses unedig, fwy syml a chlir helpu i leihau’r straen sydd yna ar adnoddau wrth gyflawni archwiliad trylwyr o geisiadau, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac osgoi oedi.

O fewn yr amserlen gyfyngedig, mae DCWW wedi ceisio darparu rhywfaint o sylwedd adeg cyflwyno’r ymateb, ond mae angen mwy o amser arnom i gynnal rhagor o ymgynghoriadau mewnol â’r adrannau perthnasol er mwyn bwydo’r gweithdrefnau ar gyfer casglu tystiolaeth yn y dyfodol.

Ennyn Ffydd ein Cwsmeriaid

Un o’n hamcanion allweddol fel Cwmni yw ‘ennill ffydd ein cwsmeriaid bob un dydd’. Mae’r weledigaeth hon yn allweddol i’n dulliau o weithio dros bobl Cymru a’r tu hwnt ac fel cwmni nid-er-elw. Tryloywder a chysylltiadau cymunedol effeithiol yw’r sylfaen ar gyfer ein holl waith. Rydyn ni’n cefnogi ymgynghoriad priodol ac ystyrlon cyn ymgeisio a fydd yn caniatáu ar gyfer mewnbwn cymunedau lleol yn ogystal â’r ymgyngoreion statudol.

O ran egwyddor, mae’r Bil yma’n gyson â’n gwerthoedd am taw cyfuno trefniadau cydsynio cyfredol yw’r amcan cyffredinol, a hynny ar sail a) Cysondeb - er mwyn caniatáu i’r cyhoedd gymryd rhan mewn un broses yn unig. B) Sicrwydd - fel bod y cyhoedd yn glir pan gwneir penderfyniadau ac C) Dryswch - er mwyn sicrhau proses fwy cynhwysol ar gyfer y rhai sy’n anghyfarwydd a’r broses, a sicrhau bod safbwyntiau gwerthfawr yn cael eu hystyried. Mae rôl newydd a chadarnach ar gyfer cymunedau’n bwysig iawn i ni fel sefydliad.

## Beth yw eich barn ar ddarpariaethau'r Bil (a nodir yn ôl adrannau, isod), yn benodol a ydynt yn ymarferol ac a fyddant yn cyflawni'r bwriad polisi a nodwyd?

### Rhan 1 - Prosiectau seilwaith arwyddocaol

Y Trothwyon Cydsynio a Gorfodi ar gyfer Seilwaith

Cyflawnir y rhan fwyaf o Waith Cyfalaf DCWW trwy gyflwyno hysbysiad a.159 o dan ddarpariaethau Deddf y Diwydiant Dŵr 1991. Mae'r drefn hysbysu yma'n caniatáu i gwmni cyfleustod dŵr fynd ar dir 3ydd parti a chyflawni gwaith i osod pibellau, a chyflawni'r holl waith ategol angenrheidiol ar dir 3ydd parti. Gwneir taliad cydnabod i greu hawddfreintiau statudol ar gyfer pibellau tanddaear newydd eu hadeiladu. Os gwrthodir caniatáu mynediad i gyflawni gwaith, gall cwmni cyfleustod dŵr gyflwyno cais i'r Llys Ynadon am Warant Mynediad.

Mae'r prosiectau fel arfer yn ymwneud ag adeiladu piblinellau er budd seilwaith iechyd y cyhoedd, ond nad ydynt yn ddigon sylweddol o ran eu maint i gael eu cynnwys o fewn y Canllawiau Seilwaith newydd. Câi unrhyw gais cynllunio ei gyflwyno o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae gan bob prosiect o dan a.159 hawliau sy'n ymwneud â phibellau, ond nid oes unrhyw ofynion hanfodol eraill o ran cyfleustodau, fel cytundebau cyflenwi trydan, yn dod o fewn diffiniadau'r statud ar gyfer y prosiectau hyn, a heb hawliau fel hyn, gallai problemau godi mewn perthynas â gwaith adeiladu.

Fodd bynnag, mae rhai o gynlluniau DCWW yn sylweddol o ran eu maint ac mae'r diffiniadau a ddarperir yn y Bil yn amlygu'r meysydd o ddatblygiad arwyddocaol fel a ganlyn:

- Adeiladu Argaeau a Chronfeydd Dŵr dros 10,000m3, sef y maint safonol lle bo angen asesiad risg o dan Ddeddf Cronfeydd Dŵr 1975.
- Trosglwyddo Adnoddau Dŵr a'r trothwyon cysylltiedig.
- Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff â throthwy capasiti o dros 500,000 eiddo.

Mae angen rhagor o amser ar DCWW i asesu'r trothwyon a ddarparwyd er mwyn cynnig adborth bellach gan yr Adran Gyfalaf Fewnol o ran a yw'r lefelau'n briodol i boblogaeth yng Nghymru, neu a ellid gostwng rhai ohonynt er mwyn caniatáu ar gyfer cais o dan y ddeddfwriaeth newydd.

Mae cyfleustod dŵr yn cyflwyno hysbysiad statudol er mwyn gosod pibellwaith newydd ac mae angen trafodaeth bellach i asesu beth a fyddai'n dod o fewn yn y diffiniadau/trothwyon a ddarperir, ac a ellid cyflwyno cais at ddiben safle penodol heb gynnwys y pibellwaith am y gellid cyflwyno hysbysiad statudol ar gyfer

seilwaith o'r fath. Am fod gan DCWW bwerau i gyflwyno hysbysiadau statudol, mae angen trafod a fyddai safleoedd gwaith a mynediad yn gynwysedig yn y weithdrefn IC ar gyfer prosiectau dŵr, neu a fyddai angen cyflwyno hysbysiad ar gyfer gofynion o'r fath o hyd.

Mae hi'n galonogol iawn bod y pwerau a ddarperir yn cael eu hategu gan Brynu Gorfodol. Bydd hyn yn sicrhau bod ceisiadau sy'n seiliedig ar ymchwil a thystiolaeth gadarn yn cael caniatâd yn hytrach na mynd yn ofer oherwydd sefyllfa 'pridwerthu tir'.

<u>Trosglwyddo Adnoddau Dŵr</u>

Mae Adran 13 yn nodi taw'r trothwy er mwyn i ddatblygiad adnoddau dŵr gael ei gategoreiddio'n SIP yw 100 miliwn metr ciwbig y flwyddyn. Mae hyn yn eithriadol o fawr o ystyried bod DCWW fel cwmni ond yn cyflenwi tua 350 miliwn o fetrau ciwbig y flwyddyn. Mae hi'n annhebygol iawn y câi unrhyw ddatblygiad adnoddau dŵr y mae DCWW yn ei gyflawni ei gategoreiddio'n SIP, ac felly ni fyddent yn elwa ar y broses ganiatáu well, unedig a symlach yn y cyswllt hwn.

Mae Adran 13 yn nodi hefyd nad yw'r Bil yn ymwneud â "throsglwyddo dŵr yfed". Dealltwriaeth DCWW yw bod hyn yn ymwneud â datblygiadau sy'n gysylltiedig â throsglwyddo dŵr crai, nid dŵr yfed. Fel sefydliad, mae DCWW yn fwy tebygol o ddatblygu cynlluniau rhwydwaith sy'n cludo dŵr yfed rhwng ein hardaloedd cyflenwi, felly byddai cynnwys hyn o fewn y Bil yn fanteisiol.

<u>Argaeau a Chronfeydd Dŵr</u>

Mae ein hargaeau a'n cronfeydd dŵr yn asedau allweddol o fewn ein rhwydwaith seilwaith. O ran egwyddor, rydyn ni'n cefnogi proses gydsynio unedig, clir a symlach ar gyfer adeiladu ac addasu'r rhain ar yr amod bod hyn yn caniatáu ar gyfer rhoi caniatâd mewn ffordd gadarn ac amserol er mwyn sicrhau y gallwn barhau i ddarparu ein gwasanaeth cyhoeddus hanfodol.

Cefnogir trothwy opsiynol mewn perthynas â cheisiadau am argaeau a chronfeydd dŵr â'r nod o ddarparu rhyw lefel o hyblygrwydd o ran pa broses ganiatâd i'w dilyn o ran egwyddor. Ond byddem yn gofyn bod yna ddigon o eglurder o ran yr amserlenni a'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau i hwyluso penderfyniadau gwybodus am y broses fwyaf priodol i'w dilyn. I'r perwyl hwn, mae angen rhagor o wybodaeth arnom i gyflwyno sylwadau llawn ar y cynigion hyn.

<u>Gweithfeydd Trin Dŵr</u>

Nodir na chynhwysir Gweithfeydd Trin Dŵr (GTD) yn y rhestr yma o brosiectau Caniatâd Seilwaith (IC) ac mae angen cynnal trafodaeth gyda Llywodraeth Cymru (LlC) i asesu pa mor briodol fyddai cynnwys hyn am fod datblygu GTD yn hanfodol, mae angen prynu tir bob tro, ac mae angen i'r drafodaeth ar sail prynu gorfodol gael ei ystyried er mwyn ychwanegu GTD at y rhestr o brosiectau IC.

<u>Gweithfeydd Trin Dŵr</u>

Mae'r trothwyon yn y Bil sy'n defnyddio cyfatebiaethau poblogaeth ar gyfer Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff yn uchel. Mae hyn yn golygu y byddai'r Bil ond yn berthnasol i un o weithfeydd trin Dŵr Gwastraff DCWW (Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff Dwyrain Caerdydd), ac rydyn ni'n annhebygol o gynyddu capasiti i boblogaeth cyfateb â 500,000.

Mae'r Bil yn nodi bod diwygio seilwaith trosglwyddo storfeydd dŵr gwastraff yn SIP os disgwylir i effaith y newid gynyddu capasiti'r seilwaith ar gyfer storio dŵr gwastraff gan dros 350,000 metr ciwbig. Byddai angen i ni gyflawni llawer o waith i ddeall beth mae'r trothwy o 350,000 metr ciwbig yn ei olygu mewn gwirionedd. Er enghraifft, a yw hyn yn golygu cadw'r holl slwtsh dŵr gwastraff a chysylltiedig ar y safle neu a ystyrir y slwtsh 'wastraff'? A yw'r rhan yma'n cynnwys capasiti'r rhwydwaith carthffosiaeth o dan "trosglwyddo dŵr er mwyn ei drin"? Os felly, ai cyfanswm y rhwydwaith carthffosiaeth ym mhob dalgylch fyddai'r 350,000 metr ciwbig?

Mae'n destun pryder hefyd gweld nad yw prosiectau seilwaith pwysig ar gyfer disodli piblinellau ac ati wedi eu cynnwys, ond yn hytrach, y gallant ddod o dan y capasiti ar gyfer trosglwyddo dŵr gwastraff. Gallai rhai o brosiectau piblinell pwysig DCWW, fel disodli'r brif bibell SECS yn ne-ddwyrain Cymru, gael eu categoreiddio fel SIP.

Mae DCWW yn awgrymu bod cynlluniau o dan yr agenda amgylcheddol newydd i gyflawni gwaith trin dŵr gwastraff yn cael eu cynnwys yn y diffiniadau o beth sy'n gwneud SIP, er enghraifft creu gwlyptiroedd, ac mae angen rhagor o amser ar DCWW i drafod hyn gyda'i Adran Amgylcheddol.

## Rhan 2 - Gofyniad am gydsyniad seilwaith

Dim sylw pellach yma.

## Rhan 3 - Gwneud cais am gydsyniad seilwaith

Dim sylw pellach yma.

## Rhan 4 - Archwilio ceisiadau

Dim sylw pellach yma.

**Rhan 5 - Penderfynu ar geisiadau am gydsyniad seilwaith**

Dim sylw pellach yma.

**Rhan 6 - Gorchmynion cydsyniad seilwaith**

Dim sylw pellach yma.

**Rhan 7 - Gorfodi**

Dim sylw pellach yma.

**Rhan 8 - Swyddogaethau atodol**

Dim sylw pellach yma.

**Rhan 9 - Darpariaethau cyffredinol**

Dim sylw pellach yma.

**Beth yw'r rhwystrau posibl i weithredu darpariaethau'r Bil, a sut mae'r Bil yn ystyried y rhwystrau hynny?**

Dim sylw pellach yma.

**Pa mor briodol yw y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o Ran 1 o'r Memorandwm Esboniadol)?**

Rydyn ni'n ymwybodol bod y Bil yn rhoi'r pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ymwneud â phrosesau a fyddai'n berthnasol i gynllunio, er enghraifft cyn ymgeisio, cyflwyno, ymgynghori, archwilio ac ati. Byddem yn gofyn ein bod ni'n parhau i fod yn ymgynghorai a'n bod yn cael y cyfle i gyflwyno sylwadau lle bo modd. Rydyn ni hefyd yn hyrwyddo dialog ac ymgynghori parhaus trwy broses y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, a fydd yn ein galluogi ni i gyflwyno sylwadau pellach ar y polisïau a gynigir oddi mewn iddi, ac ystyried y goblygiadau ar gyfer DCWW.

Yn ymgynghoriad 2018 ar y Newidiadau i Gymeradwyo Seilwaith, cyfeiriwyd at gymeradwyo cysylltiadau newydd i'r garthffos gyhoeddus yng Nghaniatâd Seilwaith Cymru. Byddem yn pwysleisio y byddai DCWW yn gwrthwynebu'n llwyr gadael i Weinidogion Cymru wneud penderfyniadau am gysylltiadau â'n seilwaith, am fod hyn yn dod o fewn darpariaethau Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 ar hyn o bryd.

**A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn debygol o ddeillio o'r Bil?**

Dim sylw pellach yma.

**Beth yw eich safbwyntiau ar asesiad Llywodraeth Cymru o effeithiau ariannol y Bil fel y nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol?**

Dim sylw pellach yma.

**A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi ynglŷn â'r Bil a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef neu unrhyw faterion cysylltiedig?**

Dim sylw pellach yma.